# y dinesydd

Medi 2001 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 265


**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU**

2002

CAERDYDD

a'r Fro

## Ail-Dorchi Llewys

Dros y blynyddoedd mae rhai o ganeuon Dafydd Iwan wedi llwyddo i fynegi llawer iawn o'n teimlade ni fel Cymry Cymraeg. Rydyn ni wedi gallu uniaethu'n hawdd gyda neges caneuon fel "Mae'n Wlad i Mi", "Cân yr Ysgol", a "Myn Duw mi a wn y Daw". Ond i ni bobol Caerdydd a'r Fro, ar ôl holl drafferthion y misoedd diwetha 'ma, does 'na'r un geiriau sy'n fwy perthnasol ar hyn o bryd na theitl y gân sy wedi tyfu i fod yn rhyw fath o anthem i Dafydd erbyn hyn "Er gwaetha pawb a phopeth, ryn ni yma o hyd"!

All neb wadu pa mor anodd fu'r cyfnod diweddar yma i'r wlad yn gyffredinol, ac i'r gymdeithas amaethyddol yn fwy na neb. Ac un o sgîl effeithiau clwyf traed a'r genau oedd creu argyfwng i fudiad yr Urdd. Gorfodwyd ni yn y parthe yma wrth gwrs i ohirio Steddfod 2001 am flwyddyn, a bu'r oblygiade i'r Mudiad yn ganolog yn rhai difrifol, gyda nifer fawr o swyddi yn gorfod diflannu oherwydd y sefyllfa ariannol. A chan fod rhai o'r swyddi hynny yn anorfod yn Adran yr Eisteddfod, mae'n bur amlwg fod y cwtogi a'r ail drefnu wedi cael effaith sylweddol arnon ni yma, yn wirfoddolwyr yng Nghaerdydd a'r Fro. Ond y neges fawr wrth i'r Haf ddechrau cilio unwaith eto yw hon. Odyn, ryn ni yma o hyd - er gwaetha pawb a phopeth, ac yn barod i ail dorchi llewys ac ail afael yn y gwaith o baratoi ar gyfer Prifwyl ein pobol ifainc ni, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2002.

Does dim disgwyl i neb ohonon ni, bobol y Ddinas a'r Fro, i ymroi cymaint ag a wnaethpwyd dros y ddwy flynedd ddiwetha. Bu'r gweithgarwch ymhob ardal yn arbennig, ac roedd hi mor galonogol fod cymaint o'r ardaloedd hynny wedi cyrraedd eu nôd ariannol ymhell cyn y Sulgwyn eleni. Ond nawr, wrth inni i gyd ddod yn ôl o'n gwylie falle, a pharatoi am Hydref a Gaeaf arall o gyd gwrdd a chyd gymdeithasu, yr hyn sy eisiau yw ail gynne'r tân, ail greu'r brwdfrydedd, ac ail godi'r ymwybyddiaeth mewn cymaint â phosib o leoedd am ddyfodiad yr Eisteddfod ddechrau Mehefin y flwyddyn nesaf. Ein bwriad



ni fel Pwyllgor Gwaith yw cynnal rhyw bedwar neu bump yn unig o ddigwyddiade mawr yn ystod y misoedd nesaf, digwyddiade y bydd pawb gobeithio am fod yn rhan ohonyn nhw. Dawns fawreddog arall falle, noson o hwyl a chân ar fordaith draw i Weston; trên i Lundain yn y cyfnod cyn y Nadolig; diwrnod arall o golff o bosibl, a dwy neu dair noson arall o logi tŷ bwyta cyfan i fwynhau gwledd - i'r corff a'r enaid! A'r gobaith yw y bydd yr elw a wneir o'r digwyddiadau hynny yn hwb i'r ardaloedd lle bu cyrraedd nôd ariannol o £10,000 yn naturiol yn dalcen caled a dweud y lleiaf.

A dydy hi ddim yn rhy hwyr o bell ffordd i rai ohonoch chi sy â'r arwydd a'r amser i ymuno â rhai o'n pwyllgore ni hefyd, neu gynnig eich gwasanaeth yn y cyfnod yn arwain at yr Eisteddfod neu yn ystod wythnos yr Ŵyl ei hunan. Mae eisiau byddin o stiwardiaid arnon ni er enghraifft am yr wythnos; hefyd criw brwdfrydig nawr i drefnu llety ar gyfer y miloedd o blant a phobl ifainc fydd yn tyrru aton ni o bob rhan o Gymru; ac mae pwyllgore fel y pwyllgor cyhoeddusrwydd yn dal yn awyddus iawn i gael rhagor o bobol i ymuno â nhw yn y gwaith o geisio rhoi sylw teilwng i'r Ŵyl ymhob cyfeiriad posibl. Ac mae yna nwydde, yn blatie a mygie, teis a chryse T, matie bwrdd a llu o bethe eraill yn dal heb eu gwerthu. A chofiwch mae pob peth sy'n hysbysebu Eisteddfod 2001 nawr yn werth llawer mwy o arian; yn Collector's item gan na fydd y Steddfod yn cael ei chynnal tan 2002!!

Dyna'n syml felly yw'r neges a'r anogaeth wrth inni setlo lawr ar drothwy'r Hydref. Dim ond naw mis sydd i fynd hyd ddechre Mehefin, ac mae'n holl bwysig i fudiad yr Urdd ac i ni yma yn yr ardal hon fod Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro yn llwyddiant ysgubol. Hon fydd yn clirio'r cymyle ac yn adfer ffydd a hyder pawb yn y mudiad. Fe lwyddodd pobol dda Dinbych i gael Steddfod Genedlaethol i'w chofio er gwaetha'r holl anawsterau. Rwy'n siwr y bydd Cymru gyfan yn dweud yr un peth am ein Steddfod ni erbyn canol Mehefin y flwyddyn nesaf. Ond nawr yw'r amser i ail fwrw ati; nawr yw'r amser i ail dorchi llewys. Bobol dda Caerdydd a'r Fro, fel y bydde Dafydd Iwan yn ei ddweud - "I'r Gâd".

**Huw Llywelyn Davies**
**Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod 2002**

### Pwysig: Cyfarfod Blynyddol Y Dinesydd

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Y Dinesydd nos Iau, 11 Hydref 2001 am 7.30 p.m. yn Eglwys Bethel, Maesyderi, Rhiwbina.
Mae'r cyfarfod yn agored i holl siaradwyr Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau agos.
Dewch yn llu i ddangos eich cefnogaeth ac i fynegi eich beirniadaeth - bydd croeso i'r naill a'r llall!

# Y Dinesydd

**Medi, Rhif 265.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Gwilym Roberts

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Gwilym Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbeina, Caerdydd

**NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.**

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Hydref 2001 erbyn 20 Medi at:**
Gwilym Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbeina, Caerdydd
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754),
E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**CALENDR**

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, at y cyfeiriad uchod.

**DOSBARTHU**

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

**HYSBYSEBION**

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270

**CYFRANIADAU ARIANNOL**

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

**FFURFLEN GYFRANNU**

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

............................................... Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.


## Cyfeillion *"Y Dinesydd"*

Diolch o galon i'r canlynol am anfon rhoddion i sicrhau llwyddiant ariannol *Y Dinesydd*:
Cymdeithas Gymraeg yr Eglwys Newydd;
Urdd, Caerdydd a'r Fro; Cylch Llyfryddol Caerdydd;
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd;
Capel Bethel Rhiwbina; Cymdeithas Tŷ'r Cymry;
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina; Ysgol Gyfun Plasmawr;
Cylch Cinio Merched Caerdydd; Cylch Cinio Cymraeg y Barri;
Merched y Wawr Cangen Caerdydd a nifer o unigolion.

**Cystadleuaeth Medi 2001**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 20 Medi 2001.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 25** **Medi 2001**



**Ar Draws**

1. 'Onid rhag ofn i'r ___ ___ __ _ ___
Synhwyro rywsut fod y drws ynghlo.' (THPW) (3,3,2,1,3)
8. Pwyso a chuchio ynghylch yr aelod seneddol (6)
9. Braidd dim a wnaeth yn Lloegr (4)
11. 'I _____ yr og ar ochr y Glog
A chanlyn yr arad goch
Ar ben y mynydd mawr.' (Ceiriog) (5)
12. '___ ___ ___ yw cwmni'r brodyr
Sydd â'u hwyneb tua'r wlad.' (WA) (1,3,3)
13. Pennaeth mynachlog yn berchen ar gwch! (4)
15. Y ddraig goch ____ gychwyn. (4)
19. A sarnaf i rywbeth i roi sglein ar bren (7)
20. Arall droi Megan (5)
22. Mil pum deg yn ei gynnwys ef yn cael nam (4)
24. a 6 i lawr. 'Croesaw Medi, fis fy serch
___ _ ______ __ y ffriddoedd
Pan y cenith glychau mêl
Casgl y gwenyn ___ _______' (EW) (3,1,6,2 a 1'1, 10)

**I Lawr**

2. Torri'r greal yn ddirgel (5)
3. O! Nesta tro cyn it ddwyno (6)
4. 'A ______ dy gariad, lanc ifan o Lŷn
Sy'n rhodio'r diwedydd fel hyn wrtho'i hun?' (WJ) (6)
5. 'O! derbyn, Arglwydd, derbyn
Fi hefyd ____ ___' (TW) (4,3)
6. gweler 24 ar draws.
7. 'Gydag ymyl troetffordd gul
A rhannai'r ardd yn ddwy
____ ___ __ ___ ei border bach
O flodau perta'r plwy.' (Crwys) (4,3,2,3)
10. Mae'n ffwlbri ar bob golwg (3)
14. Syr" a fum rywsut yn gyfeiliornus? (7)
16. Ai doeth yw dechrau casglu anifeiliaid llywaeth (3)
17. Ie! Gras yn torri crib. (6)
18. 'Fel __ ____'r pechod atgas
Mwg a tharth y pydew mawr (WW) (2,4)
21. Cael rhan o ffrwyn mewn cragen fach (5)

**Atebion Croesair 24**

**Ar draws:** 7. Maent yn dwedyd; 8. Du, cans llosgi; 12. Seithug; 14. Amnaid; 16. Carlwm; 18. Ebychau; 19. Gwaed y Groes; 23. Mi Glywais gwcw.

**I lawr:** 1. Paid; 2. Cnwc; 3. Ffyrnig; 4. Y dollfa; 5. Reis; 6. Cyni; 9. Unigryw; 10. Gwarchae; 11. Edau; 12. Swci; 13. Ulw; 15. Mab; 17. Modrwy; 18. Esgair; 19. Gris; 20. Adlo; 21. Ongo; 22. Sicr.

Derbyniwyd 10 datrysiad, naw ohonynt yn gywir. Ymddiheuriadau am y cliw coll; fe ddiflannodd rywle ar y ffordd! Danfonais y tocyn llyfrau at Dilys Pritchard-Jones, Ynys, Abererch, Pwllheli. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Beryl Hall, Cyncoed; Heledd Hall, Treganna; H.O.Hughes, Pwllheli; Gwenda Hopkins, Llanisien, Idwal Hughes, Mynydd Bychan; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; Huana Simpson, Llansanwyr a Rhodri Jones, Penarth.

## Calendr y Dinesydd

**Iau, 13 Medi**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Canu mawl ar yr Ais am 7.30 p.m.
**Mawrth, 18 Medi**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson yng nghwmni'r Prifardd Aled Gwyn, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.
**Iau, 20 Medi**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.00 erbyn 7.30. Noson dan ofal Mr Aled Jenkins. Manylion pellach: 2065 7730 neu 2062 4878.
**Gwener, 21 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Barddas yn 25 oed!' Sgwrs gan Dafydd Islwyn, Ysgrifennydd Barddas, yn festri Eglwys Minny Street am 7.00 p.m.
**Llun, 24 Medi**
Cyfarfod agoriadol cyfres achlysurol o ddosbarthiadau yn trafod Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Dinbych, yn Ysgol Uwchradd Martin Sant, Hillside, Caerffili, am 7.00 p.m. Manylion pellach gan Dr Gwen Awbery, Canolfan Addysg Gydol Oes Prifysgol Caerdydd (2087 5335) neu gan diwtor y cwrs, Dr E. Wyn James (2062 8754).
**Llun, 1 Hydref**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf am 7.00 erbyn 7.30. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Tony Couch (Ffôn: 2075 3625; e-bost: tony.couch@talk21.com).
**Gwener, 5 Hydref**
Cymrodorion Caerdydd: 'Canu Gwerin Cwm Taf.' Sgwrs gan y Llywydd, Dr E. Wyn James, yn festri Eglwys Minny Street am 7.15 p.m.
**Iau, 11 Hydref**
Cyfarfod blynyddol Y Dinesydd yng Nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

## Llongyfarchiadau

- i Dr Meic Stephens ar gael ei ddyrchafu'n Athro mewn Llenyddiaeth Saesneg Cymru ym Mhrifysgol Morgannwg.
- i Dafydd a Carol Jones ar enedigaeth eu merch Carys Elen yn Ysbyty Llandochau ar 13 Mehefin
- i Steffan Cravos a Clancy Pegg ar enedigaeth eu merch Seren yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd ym mis Mehefin
- a phob dymuniad da i Bethan Ellis Owen, y Creigiau ar ei dyweddïad â'r Parchg Gareth Rowlands, gweinidog Bethlehem, Gwaelod y Garth
- i Rhys Conway (Davies), gynt o Riwbina a'i wraig ar enedigaeth eu cyntaf anedig sef Gruffydd Owen Stuart Davies yn yr Unol Daleithiau ym mis Mehefin. Wyr arall i Conway ac Olga Davies, Pantmawr, Rhiwbina a nai cyntaf i Siân Conway, chwaer Rhys yn yr Eglwys Newydd
- i Ceri Tudno Jones, Pendeulwyn ar ei dyweddïad â Lee Flay o Poole yn Swydd Dorset. Mae Ceri yn ferch i Elwyn a Mair Tudno Jones, Pendeulwyn.
- i Siôn Jobbins, gynt o'r Eglwys Newydd, ar ei briodas â Siwan Gwyndaf, Dalgarreg, Ceredigion yng Ngwesty Tŷglyn Aeron, Ciliau Aeron ar 28 Gorffennaf. Y gwas priodas oedd Simon Brooks a threuliwyd y mis mêl yn Fenis. Mae Siôn yn Swyddog Hysbysrwydd ac Addysg yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth tra mae Siwan yn gweithio yn y Cynulliad ym Mae Caerdydd.
- i Rhys Owen, Cyncoed ac Elisabeth Evans ar eu priodas yn Eglwys y Crwys ar 25 Gorffennaf. Bydd y ddau yn ymgartrefu ym Mhenpedairheol ac yn parhau i ddysgu yn Ysgol Gymraeg Trelyn ym Mhengam.
- i Mansel a Kathleen Jones, Rhiwbina ar ddathlu eu Priodas Berl ar 14 Awst.
- i Huw Lloyd, Pen y Lan ar ei benodi'n bennaeth yr Adran Gerdd yn Ysgol Gyfun Cymer y Rhondda. Cyn ei benodi i'w swydd newydd bu'n athro cerdd yn Ysgol Uwchradd Porthcawl.
- i Hubert a Gwendy Preece, Rhiwbina, ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar 18 Awst.
- i Geraint Harries, mab hynaf Dr Jestyn a Margaret Harries, Yr Eglwys Newydd ar ei briodas â Claire Watkins, merch Mr a Mrs Maelgwyn a Hilary Watkins, gynt o'r Eglwys Newydd, ar 24 Awst yng Nghastell Ffwnmwn yn'y Fro. Byddan nhw'n ymgartrefu yn Llundain.
- i Lowri, merch Gwyn a Rhun Hughes Jones ar ei phriodas â Mark, mab Steven a Sandra John, Y Mynydd Bychan yng Nghapel Minny Street ar 21 Gorffennaf. Byddan nhw'n ymgartrefu yn Llwynfedw.
- i Nia Rowlands, Llanisien ar ei phriodas â Graeme McGuffie yn Eglwys Y Crwys ar 21 Gorffennaf. Mae Nia yn athrawes yn ysgol Y Wern, Llanisien ac mae Graeme yn gweithio i Gwmni Eagle Star yng Nghaerdydd. Cynhaliwyd y neithior yng Nghlwb Golff y Celtic Manor yng Nghasnewydd a byddan nhw'n ymgartrefu yn y Ddraenen.
- i Heledd Stephens, merch Meic a Ruth Stephens, Yr Eglwys Newydd, ar ei phriodas â Geraint Day o Bontypridd yn Eglwys y Crwys ar 25 Awst. Byddan nhw'n ymgartrefu yn Nhrefforest.
- i John a Bethan Parry Jones, Yr Eglwys Newydd, ar enedigaeth eu cyntaf anedig Elan Haf yn Ysbyty'r Brifysgol ar 18 Awst.
- i Rachel Holden ar ei phenodiad fel pennaeth y gwasanaeth Cymraeg yng Nghronfa'r Cyfleoedd Newydd. Bu'n gweithio cyn hynny fel Cyfieithydd yn yr hen Swyddfa Gymreig ac yn y Cynulliad.
- i Nia Jeffries ar gael swydd gyda Nwy Prydain yn Nhŷ Helmont yng Nghaerdydd lle bydd hi'n hybu cysylltiadau cyhoeddus a chymunedol yn arbennig drwy'r Gymraeg. Daw o Dremadog yn enedigol a chyn ymuno â Nwy Prydain bu'n gweithio am flwyddyn gyda'r Asiantaeth PR Citigate Westminster.
- a phob dymuniad da i Keith William, mab bach i Sioned a Gordon Harold (Rhiwbina) ac ŵyr cyntaf i Alun a Meinwen Guy.

## Cydymdeimlir

- â theulu y diweddar Pegi David a fu farw yn Ysbyty Landsowne, Lecwydd ar 16 Mehefin. Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Minny Street ar 22 Mehefin ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- â theulu y diweddar Vi Protheroe, gweddw Cliff Prothero, Penarth a fu farw yn Ysbyty Llandochau ar 2 Gorffennaf.
- â Meinwen Guy, Rhiwbina a'i theulu oll ar golli ei mam Bet Thomas yn Nolgellau ar 2 Awst.
- ag Olwen Griffith, Y Creigiau, ar farwolaeth ei mam yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg ym mis Gorffennaf.
- ag Eulfwyn Weston Llandaf a'i theulu ar farwolaeth ei gŵr Stanley yng Nghartre Nyrsio St. Winefride ar 15 Awst. Bu'r angladd ar y 25 Awst.
- ag Aerona Warrington, Llwynfedw a'r teulu ar farwolaeth ei gŵr Len ar 21 Awst. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 25 Awst.

## Marw Nofwraig

Ar ddechrau Awst bu farw Valerie Davies y nofwraig a enillodd dwy Fedal Efydd yn Chwaraeon Olympaidd Los Angeles yn 1932. Roedd hi'n 89 yn marw a daliodd i fyw yn nhŷ'r teulu yn edrych allan dros Lyn y Rhath ar hyd ei hoes. Hi ydy'r nofwraig orau a gafwyd hyd yn hyn yng Nghymru. Enillodd sawl medal ac anrhydedd yn ei dydd a hi oedd Capten y tîm o Gymru yn Chwaraeon y Gymanwlad yn Llundain yn 1934.

### Anrhydeddau i Athrawon

Ym mis Mehefin mewn seremoni arbennig yn Neuadd y Ddinas cyflwynwyd gwobrau a thlysau i nifer o athrawon i gydnabod eu gwaith nodedig. Trefnir cystadleuaeth flynyddol gan yr Ymddiriedolaeth Anrhydeddu Gwaith Clodwiw Athrawon. Enillodd Owen Thomas, 24 oed sy'n dysgu yn Ysgol Gynradd Evenlode Penarth dlws Plato a dwy fil o bunnoedd ar gyfer ei ysgol yn y categori yr Athro Newydd Mwyaf Nodedig tra enillodd Derwyn Parry, athro yn Ysgol Uwchradd Fitzalan a Glynis Thomas o Ysgol Arbennig yr Hollies, Pentwyn, Caerdydd, dystysgrifau o gymeradwyaeth uchel a siec am £250 yr un ar gyfer eu hysgolion.

Llongyfarchiadau iddyn nhw. Bydd Owen Thomas yn mynd yn ei flaen i'r gystadleuaeth Brydeinig yn yr Hydref gyda gobaith o ennill £25,000 i'w ysgol! Pob lwc iddo.

### Deiseb Perfformwyr Cerdd



Daeth nifer o arweinwyr Cylch yr Iaith i Gaerdydd ar ddydd Gwener, 29 Mehefin er mwyn cyflwyno deiseb i benaethiaid Radio Cymru yng Nghanolfan y BBC yn Llandaf gyda dros 4,000 o lofnodion gan gynnwys perfformwyr enwog megis Dafydd Iwan, Bryn Fôn, a Caryl Parry Jones. Roedd y ddeiseb yn gwneud apêl ar i Radio Cymru adlewyrchu yn gytbwys ystod eang ac amrywiaeth cyfoethog y gynhysgaeth gerddorol sydd yng Nghymru heb orfod defnyddio recordiau Saesneg eu hiaith ac yr unig donfedd ar y Radio sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer y Cymry Cymraeg.

### Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

Bydd Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru yn dod i Gaerdydd dros y penwythnos 7-9 Medi i gynnal eu Cyfarfod Blynyddol a fforwm arbennig i drafod adfywio cefn gwlad. Bydd nifer o weithgareddau cymdeithasol yn y Gyfnewidfa Lo ym Mae Caerdydd.

### Dau gynt o Gaerdydd yn codi arian

Ar ddiwedd Mehefin cafwyd taith dandem noddedig o Fangor i Gaerdydd er mwyn codi arian ar gyfer Apêl Charlotte Speddy o Fethesda i'w hanfon i'r Unol Daleithiau i dderbyn llawdriniaeth arbenigol yno. Mae £75,000 wedi dod i law eisoes drwy ymdrechion llu o gefnogwyr gan gynnwys y ddau ar dandem sef Gwyndaf Parry a Huw Davies. Bu Gwyndaf yn y Coleg yng Nghaerdydd ac mae brawd iddo sef Colin Parry yn athro yn Ysgol Llanhari tra bu Huw yn Warden Canolfan yr Urdd yn Nhreganna am flynyddoedd cyn symud yn ôl i'r Gogledd. Llongyfarchiadau iddyn nhw ar gwblhau'r daith a lwyddodd i godi dros £1,500 i'r gronfa. Fe'i croesawyd i Fae Caerdydd ar ddiwedd eu taith gan ddirprwy Faer y ddinas a chriw o gefnogwyr.

### Bardd y Gadair, Dinbych - Camp Arbennig

Cyflawnwyd camp arbennig gan Mererid Hopwood yn Eisteddfod Dinbych drwy fod y ferch gyntaf i ennill Cadair yr Eisteddfod ers sefydlu'r gystadleuaeth. Llongyfarchiadau gwresog iddi. Un o Gaerdydd ydy Mererid ac yn ferch i Dr a Mrs Eurig Davies, Llandaf. Mynychodd ysgolion Bryntaf a Llanhari cyn mynd i astudio Almaeneg a Sbaeneg yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth ac oddi yno i Brifysgol Llundain i wneud doethuriaeth mewn Almaeneg. Bu'n darlithio yn Llundain a Choleg y Brifysgol, Abertawe. Mae hi'n byw yn Llangynnwr, Caerfyrddin ac yn fam i dri o blant. Cyfreithiwr ydy ei gŵr Martin a daw yntau hefyd o Gaerdydd ac yn fab i Eifion Hopwood, Llandochau a'r diweddar Owena Hopwood.

### Gwella cyflwr bedd Carnhuanawc (1787-1848)

Alan Jobbins yr Eglwys Newydd ydy Ysgrifennydd Cymdeithas Carnhuanawc sy am sicrhau bod bedd y Cymro brwd hwn yn cael gofalaeth a'r bwriad ar hyn o bryd ydy mynd ati i ail lythrennu'r bedd ym mynwent Eglwys Llanfihangel Cwm Du ger Crughywel. Agorwyd cronfa a hyd yn hyn mae dros chwe chan punt wedi dod i law i sicrhau y cwblheir y gwaith. Thomas Price oedd enw iawn Carnhuanawc, a bu'n Ficer yng Nghwm Du am flynyddoedd gan weithio'n ddiarbed i sicrhau ffyniant y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn. Agorodd Ysgol Gymraeg yng Nghwm Du a bu'n gefnogwr brwd i Eisteddfodau'r Fenni dan nawdd Gwenynen Gwent sef yr Arglwyddes Llanofer. Am ragor o fanylion cysyllter ag Alan Jobbins, 47 Heol Wingfield, yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1NJ. Ffôn 029 2062 3275.

### Berw Haf yng Nghaerdydd

Mae hi wedi bod yn Haf cyffrous a diddorol yng Nghaerdydd rhwng y tywydd braf a phopeth ac mae miloedd wedi tyrru yma nid yn unig ar wyliau ond hefyd i fwynhau y llu o ddigwyddiadau sydd wedi bod yn y ddinas dros y mis neu ddau diwethaf. Mae rhywbeth wedi bod at ddant pawb megis cyngherddau Tom Jones, Sting, Robbie Williams, y Stereophonics, criced yng Ngerddi Soffia, pêl-droed yn y Stadiwm, Canwr y byd a'r proms Cymreig dan arweiniad Owain Arwel Hughes yn Neuadd Dewi Sant, rasys beiciau modur y byd yn y Stadiwm, a Gŵyl Caerdydd hefo perfformiadau stryd, adloniant mewn parciau megis Parc y Rhath a Pharc Victoria ac adloniant yn y Bae gyda thân gwyllt yn goleuo'r nos a llu o atyniadau eraill megis mynediad am ddim i'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan a'r Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays. Yn wir, pwy oedd eisiau gwyliau tramor a chymaint o atyniadau i'n cadw yn y ddinas yn ystod yr Haf!

### Llyfr Newydd am Gaerdydd

Yn ddiweddar mae Gwasg Gomer wedi bod wrthi yn cyhoeddi nifer o lyfrau dwyieithog yn amlinellu nodweddion Cymreig dan y teitl Cip ar Gymru ac mae'r gyfrol ddiweddaraf sef Caerdydd/Cardiff newydd ymddangos. Yr awdur ydy Martin Huws, Cymro Cymraeg a anwyd ac a fagwyd yn y ddinas ac a fynychodd Ysgol Bryntaf cyn mynd i Ysgol Uwchradd Cathays gan astudio hanes fel pwnc yn ei arholiadau Safon A. Mae'r awdur yn newyddiadurwr ar-lein gyda BBC Cymru. Mae nifer o luniau trawiadol yn y gyfrol wedi eu tynnu gan Nick Jenkins brodor arall o Gaerdydd ac mae'r llyfr ar werth am £1.95.

### Cymdeithas Ddrama'r Crwys

Bu'r Gymdeithas Ddrama yn ôl ei harfer yn cefnogi ein Gŵyl Genedlaethol yn Ninbych ac er na ddaeth gwobr i'w rhan y tro hwn cafodd cast y ddwy ddrama hwyl a boddhâd yn perfformio "A glywch chi'r miwsig" (drama fer) a "Cofio Cyfeillion" (drama hir). Perfformir y ddrama hir yn Theatr y Crwys ar nos Fercher a nos Iau, 26 a 27 Medi am 7.30 pm. Am docyn ffoniwch 2070 8253.

### Cwmni Drama Minny St

Cwmni Drama arall a fuodd yn actio yn y Brifwyl oedd Cwmni Minny St yn perfformio "Rhwng pob cegiad", sef addasiad Emyr Edwards o ddrama Alan Ayckbourn "Between Mouthfuls". Cymerwyd rhan gan Zac Davies, R Alun Evans, Menna Gwyn, Andrew Bartholemew ac Eirlys Eckley.

### Tŷ'r Cymry Heol Gordon y Rhath

Cynhelir noson agoriadol Tŷ'r Cymry, 19 Medi am 7.00 a bydd Ceri Anwen James yn rhoi cyflwyniad ar ran yr Academi Gymreig. Bwffe i ddilyn. Croeso cynnes i bawb.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

### Newyddion o Tabernacl, Y Barri

• Llongyfarchiadau i Sarah ac Eurof Davies ar enedigaeth eu mab, Rhys. Brawd bach newydd i Hanna.

• Cafwyd y fraint o fedyddio dau faban yn ystod mis Gorffennaf. Ar fore Sul, 8 Gorffennaf, bedyddiwyd Sara Llwyd, merch fach ein Gweinidog, Beti-Wyn a'i phriod Philip, a chwaer Elin Wyn. Gweinyddwyd y bedydd gan Y Parchg. Derwyn Morris Jones. Ar fore Sul, 22 Gorffennaf, bedyddiwyd Owain Watcyn, mab Sara ac Andrew Taylor, a brawd bach Dylan.

• Cynhaliwyd noson deuluol ym Mharc Porthceri ddiwedd Mehefin, a chafwyd noson hwylus o gymdeithasu. Braf oedd croesawu'n cyfeillion o Fethel, Penarth i'n plith hefyd.

• Diweddwyd tymor Cymdeithas y Chwiorydd gyda chinio yng Ngwesty John Grooms, Trerhingyll. Edrychwn ymlaen at ailgychwyn y tymor ddechrau Hydref.

• Diweddwyd tymor yr Ysgol Sul gyda gwibdaith i Barc Oakwood a Dibych y Pysgod. Cafwyd diwrnod ardderchog, a'r tywydd yn hynod o garedig!

### Eglwys Ebeneser

Bu dau fedydd yn Ebeneser yn ystod mis Gorffennaf. Ar y cyntaf o'r mis bedyddiwyd Dewi, mab Kim a Nigel Rees a brawd bach Angharad, ac yna ar Orffennaf 29ain bedyddiwyd Steffan, mab Siân a Medwyn Parri a brawd Gwern a Cian. Ein dymuniadau gorau i'r ddau deulu.

Anrhydeddwyd ein hysgrifennydd, Dr. Emrys Evans, yn ddiweddar trwy ei urddo'n Gymrawd Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Llongyfarchiadau gwresog iddo.

Bydd Eglwys Ebeneser yn ad-leoli yn ystod y flwyddyn nesaf i safle arall o fewn Caerdydd ond y tu allan i ganol y ddinas. Gwnaethom y penderfyniad hwn oherwydd fod arnom angen adeilad mwy addas a hyblyg ar gyfer y ganrif newydd. Hwn fydd yr eildro o fewn chwarter canrif i ni symud fel cynulleidfa; fe symudasom i'r adeilad presennol yn Heol Siarl - hen gapel yr Annibynwyr Saesneg - yn niwedd y saithdegau ar ôl gorfod ildio'r adeilad oedd gennym i wneud lle i godi Canolfan Siopa Dewi Sant. Hyderwn y bydd y symud hwn i adeilad newydd yn gyfle i ni adnewyddu ein cenhadaeth yma yn Nghaerdydd.

Rydym wrthi'n ddiwyd yn casglu arian ar gyfer ein helusen ddewisiedig eleni, sef Arch Noa, cronfa ar gyfer codi ysbyty newydd i blant. Cynhaliwyd Bore Coffi a Ffair yn Ebeneser, lle casglwyd dros £600, a bydd taith gerdded noddedig yn fuan iawn hefyd.

Yn ystod y misoedd diwethaf casglodd Ysgol Sul Ebeneser lyfrau tuag at apêl y Tyst ar ran Book Aid International. Trwy yr ymdrech hon casglwyd 750 llyfr a dosberthir hwy mewn gwledydd anghenus er mwyn eu cynorthwyo'n addysgiadol.

### Minny Street, Caerdydd

Da gennym fod ein Gweinidog, y Parchg Eifion Powell, yn raddol wella wedi iddo dderbyn llawdriniaeth. Dymunwn pob bendith iddo wrth iddo barhau i gryfhau.

Cydymdeimlwn â theulu y Barnwr Hywel ap Robert a fu farw ddiwedd mis Gorffennaf wedi cyfnod hir o dostrwydd. Cofiwn yn arbennig am ei briod, Elizabeth a'r teulu ac hefyd am ei frawd, y Parchg Gwilym ap Robert a'r teulu.

Dymunwn yn dda i nifer o'n aelodau sydd wedi priodi dros y misoedd diwethaf: Angharad Mair â Jonathan Cray, James Barr â Siân (Griffiths) a Lowri (Jones) â Mark John.

### Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg

Nos Wener 13 Gorffennaf cynhaliwyd barbeciw blynyddol yr eglwys ym Mhorthceri, a daeth nifer ynghyd i fwynhau'r lluniaeth a'r chwaraeon. Dr Geraint a Luned Morris a ddarparodd y bwyd eto eleni.

Penodwyd Dr Geraint Morris i swydd Ymgynghorydd yn Ysbyty Singleton, Abertawe, a chafwyd cyfle yn ystod mis Gorffennaf i ddiolch iddo ef a'i briod, Luned, am eu gwaith yn ein plith ac i ddymuno'n dda iddyn nhw a'r plant - Elen, Dewi a Rhodri - wrth iddynt symud i Abertawe i fyw.

Yn ddiweddar cafwyd sawl priodas yn gysylltiedig â'r eglwys. Dymuniadau gorau i Ffion Mair a Gwydion Evans sydd wedi mynd i'r Gogledd i fyw; i Eilir Jones a Lois Slaymaker a fu'n astudio yn y Brifysgol yma yng Nghaerdydd; i Bethan Hughes a Hywel George, ac i Huw Pritchard a Mari Davies, sy'n bwriadu ymgartrefu yma yn y ddinas.

### Pigion o Eglwys y Crwys

Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 7, cynhaliodd y Grŵp Merched de mefus llwyddiannus iawn yng nghartre Mr John Lloyd a'r teulu. Gwnaed elw o £450 ac fe'i cyflwynwyd at waith Cyfeillion Ysbyty Felindre. Y Sadwrn dilynol bedyddiwyd Buddug a Dafydd, plant Mr a Mrs Hywel James, ac yn ogystal derbyniwyd eu rhieni yn aelodau yn yr Eglwys.

Cynhaliodd y Cylch Cymorth fore coffi yng nghartre Dr Henry a Mrs Don Jones, Heol Cyncoed. Gwnaed elw o ryw £550 ac fe'i dosberthir gan y Cylch i ymateb i unrhyw alw dyngarol yn ystod y flwyddyn gyfredol.

### Bethel, Rhiwbina

Aelodau a chyfeillion Capel Bethel, Rhiwbina yn mwynhau noson hyfryd o Haf yn y Bae. Cafwyd trip mewn cwch i fyny'r Afon Elái i weld y bywyd gwyllt cyn galw mewn tŷ bwyta Eidalaidd am bryd o fwyd blasus.

Llongyfarchiadau i'n cyn-weinidog y Parchg Martin Evans Jones, ar dderbyn swydd yn Granville, yn yr Unol Daleithiau. Yn ogystal â bod â gofal eglwys bydd yn rhoi gwersi Cymraeg i'r Americanwyr yn y coleg lleol.



Rhagor o hanes yr eglwysi ar dudalen 11

## Côr Ieuenctid y Gaiman yng Nghaerdydd

Ar ôl teithio o gwmpas Gogledd a Gorllewin Cymru daeth Côr Ieuenctid y Gaiman, Patagonia, i Gaerdydd gan roi dau gyngerdd gwych yn Adeilad Bute, Coleg y Brifysgol Caerdydd ar nosweithiau y 18 a 19 Gorffennaf. Dangoswyd cyfres o sleidiau hefyd yn ystod y cyngherddau a dynnwyd tra bu ugain o ddisgyblion ac athrawon o Ysgol Gyfun Glantaf ar ymweliad â'r Wladfa dros y Pasg dan arweiniad Bob Puw, Pennaeth Canolfan y Bannau, ar Fannau Brycheiniog. Rhodri Morgan, Prifweinidog y Cynulliad oedd y gŵr gwadd y noson gyntaf a soniodd am y croeso twymgalon a gafodd ef ar ei ymweliad diweddar â'r Wladfa ac am y gobaith o weld y cysylltiadau â'r ddwy wlad yn cryfhau dros y blynyddoedd. Bu aelodau'r Côr yn lletya hefo teuluoedd disgyblion Glantaf a fu draw yn y Wladfa a mawr oedd canmol y côr am y croeso a gafwyd nid yn unig yng Nghaerdydd ond ymhobman y buon nhw ar eu taith o gwmpas Cymru. Trefnwyd y ddau gyngerdd yng Nghaerdydd gan Bob Puw.

## Y Super Furries Yn Rhyddhau Albwm Newydd

Mae'r grŵp y Super Furries yn dal i ennyn diddordeb a sylw mawr ymhlith ieuenctid Prydain, ac ar ôl rhyddhau eu halbwm Cymraeg "Mwng" a werthodd filoedd maen nhw rwan newydd ryddhau eu pumed albwm o'r enw "Rings Around the World" sydd hefyd yn gwerthu'n dda. Daw dau aelod o'r grŵp hynod lwyddiannus hwn o Gaerdydd sef Guto Pryce a Huw Bunford.

## Newyddion Menter Caerdydd - Cynllun Chwarae

Eleni am y tro cyntaf cynhaliwyd cynllun chwarae Hwyl Haf gan Fenter Iaith Caerdydd ar safleoedd Ysgolion Bro Eirwg, Pwll Coch a Choed-y-Gof. Cyflogwyd dros 20 o staff a daeth cannoedd o blant yn ystod y tair wythnos a chafwyd hwyl a sbri trwy gyfrwng y Gymraeg. Hoffai'r Fenter ddiolch i Brifathrawon yr ysgolion hyn ac Ann Williams (RHAG) am eu cefnogaeth. Hoffem ddiolch yn arbennig i Catrin Ann Jones am ei holl waith, brwdfrydedd a phroffesiynoldeb. Ariannwyd y cynllun gan Blant Mewn Angen yn bennaf a Chyngor Sir Caerdydd.

## Dewch i'r Cymrodorion

Y Cymrodorion yw Cymdeithas Gymraeg hynaf Caerdydd. Fe'i sefydlwyd yn 1885, a thros y blynyddoedd bu'n llais pwysig o blaid y Gymraeg yn y ddinas, ac yn enwedig efallai, o blaid addysg Gymraeg.

Mae'r Cymrodorion yn unigryw. Erbyn hyn, y mae cymdeithasau Cymraeg o bob lliw a llun yn y brifddinas. Mae nifer yn gysylltiedig â chapeli ac eglwysi, eraill yn perthyn i ardal neu oed arbennig (megis Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina a Chymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd, Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd a chlybiau'r Urdd), ac eraill yn adlewyrchu diddordebau penodol (megis y Cylch Llyfryddol, y Gymdeithas Wyddonol a'r corau lluosog). Ond y Cymrodorion yw'r unig gymdeithas Gymraeg 'gyffredinol' ar gyfer Cymry Cymraeg Caerdydd.

Bylchwyd rhengoedd aelodau'r Cymrodorion yn sylweddol yn ddiweddar trwy farwolaeth ac afiechyd, ac y mae mawr angen to iau o gefnogwyr selog. Felly, Gymry Caerdydd, dewch yn llu i gefnogi cyfarfodydd y Cymrodorion, a thrwy hynny helpu i gryfhau bywyd cymunedol Cymraeg Caerdydd.

Cynhelir cyfarfod cyntaf y Cymrodorion am y tymor nesaf yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.15 p.m. nos Wener, 5 Hydref. Y noson honno bydd Llywydd y Cymrodorion am eleni - Dr E. Wyn James o Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd - yn rhoi sgwrs ar y testun 'Canu Gwerin Cwm Taf'. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Havard Gregory, 51 Heol y Coed, Rhiwbina CF14 6HQ (2069-4667).

## "Agor y Drws"

Cyhoeddodd Consortiwm Addysg Gymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro, dair mil o lyfrynnau yn rhestru'r holl weithgareddau Cymraeg yn y Ddinas a'r Fro dan yr enw Agor y Drws i'w dosbarthu yn y Sadwrn Cymraeg a gynhaliwyd yn Neuadd Dewi Sant ar ddydd Sadwrn, 23 Mehefin. O ganlyniad ni fydd *Y Dinesydd* yn cyhoeddi ei Gyfeiriadur o Weithgareddau Cymraeg y Ddinas a'r Fro eleni a gall unrhyw un sydd heb weld llyfryn y Consortiwm gysylltu â Nans Couch ar 2075 3625 a chael copi yn rhad ac am ddim ganddi hi.

## Anrhydeddau'r Orsedd

Nodwyd nifer o bobl Caerdydd oedd yn cael eu hanrhydeddu gan yr Orsedd yn Eisteddfod Dinbych yn y rhifyn Gorffennaf/Awst o'r Dinesydd ond methwyd â nodi un o'r Fro hefyd a gafodd ei anrhydeddu sef R Emrys Jones brodor o Dalsarnau Gwynedd ond sy'n byw bellach yn y Sili ac yn aelod yng Nghapel Bethel, Rhiwbina. Llongyfarchiadau iddo yntau. Un arall sydd â chysylltiad â Chaerdydd a dderbyniodd anrhydedd yr Orsedd oedd Aur Roberts, Llanuwchllyn sydd â merch iddi, sef Elliw Richards, yn byw yn Rhiwbina. Llongyfarchiadau iddi hi hefyd.

## Ennill Statws Cylch Rhagorol MYM

Llongyfarchiadau i Ysgol Feithrin Radur a Phentrepoeth ar ennill statws Cylch Rhagorol y Mudiad Meithrin yn ddiweddar diolch i holl waith yr athrawon a'r rhieni. Bydd Cylch Ti a Fi Radur yn ail ddechrau bob bore Gwener o 7 Medi ymlaen o 9.30 tan 11.00 - byddwn yn falch o weld aelodau newydd.

## Swper pen tymor Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina

Daeth dros ddeugain o aelodau ynghyd yng Nghlwb y Rec Rhiwbina ar nos Lun, 2 Gorffennaf, i fwynhau swper pedwar cwrs i ddathlu diwedd blwyddyn lwyddiannus arall yn hanes y Gymdeithas. Llywyddwyd y noson gan Iwan Jones, Cadeirydd y Gymdeithas am 2001/2 a chafwyd hwyl wrth orffen limrig ac ati dan arweiniad Gwilym Roberts.

## Cerddi Gwenallt

Mae Dr Christine James o'r Eglwys Newydd, sy'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Cymru Abertawe, wedi golygu *Cerddi Gwenallt - Y Casgliad Cyflawn*, sef casgliad cynhwysfawr o holl gerddi Gwenallt. Mae'r gyfrol arloesol hon yn cynnwys dros 300 o gerddi a thair awdl a gyhoeddwyd mewn cyfrolau blaenorol o'i waith, ynghyd â cherddi ychwanegol, a nodiadau cefndirol ac eglurhaol manwl. Fe'i cyhoeddir gan Wasg Gomer. Pris: £25.

## Cerddi ac Ysgrifau

Mae John Emyr, Golygydd Cofnod y Cynulliad, wedi golygu *Cerddi ac Ysgrifau*, sef cyfrol o waith yr awdures o Gaerfyrddin, Mair Eluned Davies. Cyhoeddir y gyfrol gan Wasg Bryntirion. Pris: £13.95.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .

**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com



### Yr Urdd Caerdydd a'r Fro
### Taith Uwchradd yr Urdd i Disneyland Paris

Yn ystod penwythnos cyntaf mis Gorffennaf eleni aeth dros 45 o ddisgyblion Blwyddyn 7 & 8 Ysgolion Glantaf a Bro Morgannwg i Eurodisney gyda'r Urdd. Dyma'r ail flwyddyn yn olynnol i'r daith gael ei threfnu ac eto eleni cafwyd amser bythgofiadwy. Yn y llun uchod gwelir rai o'r plant yn y parc yn y nos adeg y gorymdaith.

### Taith Uwchradd yr Urdd i Sbaen

Am y tro cyntaf yn hanes yr Urdd yng Nghaerdydd trefnwyd taith ar gyfer disyblion Blwyddyn 9 & 10 Uwchradd i Sbaen ar ddiwedd mis Gorffennaf. Ymunodd criw o ddisgyblion Glantaf â disgyblion Ysgol Y stalyfera, Gŵyr, Llanhari a Rhydfelen am wythnos yn yr haul!! Arhosom mewn cabannau pren en-suite yng ngwersyll Cala le Vado wrth ymyl Tossa De Mar a chawsom gyfle yn ystod yr wythnos i ymweld â Barcelona, Parc Dŵr Waterworld, Parc Port Aventura a hefyd amser i ymlacio ar y traeth a phwll nofio wrth ymyl y gwersyll. Cawsom amser ardderchog ac ymddygiad gwych gan ddisgyblion Glantaf. Heb amheuaeth, byddwn yn cynnal taith arall y flwyddyn nesaf!



### Ail-lansio Mr Urdd



Ddydd Gwener, 14 Medi bydd Urdd Gobaith Cymru yn ail lansio Mr Urdd. Y tro diwethaf inni weld Mr Urdd oedd yn y gofod nôl yn '97 ond erbyn hyn mae'n awyddus i ddod nôl i Gymru i gwrdd ag aelodau'r Urdd. Bydd Mr Urdd yn hedfan lawr i Ysgol Melin Gruffydd a'r Eglwys Wen mewn hofrennydd a bydd y grŵp CIC yn ail-lansio'r gân 'Hei Mr Urdd'.

### Swyddog Ieuenctid Urdd Gobaith Cymru/ Menter Iaith Caerdydd

Yn sgil grant 3 blynedd gan y Loteri Genedlaethol mae'r Urdd a'r Fenter yn cydweithio i gyflogi Swyddog Datblygu Gweithgareddau Ieuenctid fydd yn gweithio o Glwb Ieuenctid Waterhall ar safle Plasmawr. Nôd y swydd yw i greu cyfleoedd i bobl ifainc, yn ein dwy ysgol uwchradd Gymraeg a'r rhai sy'n astudio'r Gymraeg yn ail iaith ar gyfer arholiadau lefel uwch i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol. Penodwyd Andrew Morrissi sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Rhydfelen ac yn byw yn Llandochau i'r swydd. Hoffem ddiolch i Dyfrig Morgan, Urdd Gobaith Cymru, am gydweithio â ni ar y prosiect cyffrous hwn ac i Rick Williams, Cyngor Sir Caerdydd am gytuno i ddarparu swyddfa ac offer i'r swyddog newydd. Mae Andrew yn dechrau yn ei swydd newydd ym mis Medi. Pob llwyddiant iddo!

### Canolfan yr Urdd, Pentre Ifan, Sir Benfro

Mae'r Urdd yn awyddus i lawer mwy o ddefnydd gael ei wneud o'r Ganolfan gan y genedl. Fe'i lleolir yng Ngogledd Sir Benfro tua dwy filltir o Drefdraeth. Mae'r ganolfan wedi ei hamgylchynu gan dir amaethyddol a choedwigoedd naturiol a cheir awyrgylch heddychlon a chartrefol yno. Croesewir grwpiau i aros yn y Ganolfan ac mae'n lle hyfryd i gynnal priodas neu barti. Am ragor o fanylion ynglŷn â'r gost o aros yno ac ati cysyllter â Joan Wilks ar 01239 654473.

## Enillwyr Caerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Dinbych

*Côr Cymysg rhwng 41-60 mewn nifer*
1. Côr Caerdydd

*Côr Cymysg dan 40 o leisiau*
2. Cordydd

*Unawd telyn dan 16 oed, Unawd piano dan 16 oed, a Chydenillydd y Rhuban Glas i offerynwyr ifanc*
1. Mali Llywelyn, Penarth

*Unawd Contralto* — 1. Siân Meinir Lewis, Penarth; 3. Elen Huws Ellis, Caerdydd

*Grwp Clocsio* — 1. Parti Dawns Caerdydd

*Dawnsio gwerin i ddeuawd, triawd, pedwarawd*
3. Caerdydd

*Parti Dawnsio Gwerin* — 2. Parti Dawns Caerdydd

*Côr pensiynwyr* — 3. Côr Hamdden Caerdydd

*Ysgoloriaeth er cof am David Lloyd a Jean Skidmore*
Meilir Dafydd, Caerdydd

*Tlws Coffa Elvet a Mair Elvet Thomas i gydnabod gwasanaeth arbennig athro/athrawes Gymraeg fel ail iaith i oedolion* — Basil Davies, Y Barri

*Y Gadair* — Mererid Hopwood, gynt o Gaerdydd

*Ysgoloriaeth W Towyn Roberts i gantorion ifanc gwerth £3,000* — 1. Y Bariton Paul Carey Jones, Rhiwbina

*Gwobr Goffa David Ellis - Y Rhuban Glas*
1. Siân Meinir Lewis, Penarth

# Plasmawr



### Mwynhau yng Nglanllyn

Cyn diwedd tymor yr Haf cafodd disgyblion blwyddyn 8 gyfle i fynd i wersyll Glanllyn am dridiau. Gadawodd y bws a phum deg o ddisgyblion yr ysgol am naw o'r gloch fore dydd Sul a dechreuom ar ein taith tua'r Gogledd. Cyrhaeddodd y bws y gwersyll tua dau o'r gloch a dechreuodd y gweithgareddau ar unwaith. Cafodd pawb gyfle i rafftio dwr gwyn yn Nhryweryn cyn dychwelyd yn ôl i'r gwersyll yn wlyb cyn swper. Yn ystod y cyfnod yno cawsom brofiadau arbennig ac roedd y gweithgareddau'n cynnwys rhwyfo, canwio, datrys problemau, nofio, gweithgareddau yn y gampfa, adeiladu rafft a threuliasom fore yn y Bala ar ôl teithio yno ar y trên bach. Gyda'r nos cawsom dwmpath dawns, cwis a disgo ar y noson olaf. Uchafbwynt yr ymweliad oedd y rafftio a'r canwio a threuliom lawer o'n hamser yn sychu'n dillad gwlyb! Cyrhaeddom yn ôl ym Mhlasmawr am dri o'r gloch ar y dydd Mercher ar ôl dyddiau a gweithgareddau bythgofiadwy.

**Criw Blwyddyn 8**

# Glantaf

## Glantaf ac Eton

Cawsom y cyfle i dreulio deng niwrnod yn ysgol enwog Eton ar gwrs haf i ysgolion y wladwriaeth. Cynigiwyd amrywiaeth o bynciau megis gwyddoniaeth, ieithoedd a'r dyniaethau. Astudiodd Manon ac Elin Almaeneg, tra Lladin oedd y pwnc a ddewisodd Alys.

Braint oedd cael ein derbyn i'r ysgol hynafol hon, a gwelwyd hyn yn y niferoedd isel ym mhob dosbarth. Roedd yn gwrs dwys ac fe ymestynnwyd ein gallu i'r eithaf. Yn y llun dangosir ni yn mwynhau mewn disgo a gynhaliwyd ar ynys fechan yng nghanol afon Tafwys – joio ynghyd a gweithio!

**Alys Bryant, Elin Burns a Manon Hefin**



# YSGOL Y WERN

Eleni eto, fe gipiodd dîm Diogelwch y Ffordd, Ysgol y Wern, y brif wobr yn Rownd Derfynol y gystadleuaeth hon yn Neuadd y Sir. Nhw yw Pencampwyr y Sir eleni eto. Llongyfarchiadau i Gruffydd John, Christopher Kelly, Owen Llewelyn, Freddy Wilson ac Owen Jones, cyn-ddisgyblion Blwyddyn 9 Y Wern. Fe fydd yr holl wybodaeth sydd ganddynt am reolau'r ffordd fawr yn gymorth mawr iddynt ar hyd eu hoes.



*Tîm Diogelwch y Ffordd Ysgol y Wern, Llanisien, enillwyr rownd derfynol cystadleuaeth Diogelwch y Ffordd yng Nghaerdydd a'r Fro*

### Ymweliad â New Jersey

Y llynedd bu pobl ifanc o ardal New Jersey ar ymweliad â Chaerdydd ac yn aros hefo pobl ifanc Ysgolion Glantaf a Phlasmawr yn rhan o Operation Friendship. Cadeirydd y cynllun yng Nghaerdydd ydy Garwyn Davies, Penarth. Eleni ar 25 Gorffennaf cychwynodd saith o bobl ifanc Caerdydd dan arweiniad Alun Roberts, athro yn ysgol Gymraeg Iolo yn y Bontfaen ac yn byw yn Rhiwbina, ar eu taith i New Jersey i aros hefo'r bobl ifanc o New Jersey a fuodd draw y llynedd. Bethan Evans, Rhiannon Evans, Elin Rowlands, Selyf Shapey, Louisa Jones, Laura Stewart, a Sioned Wyn oedd y saith a fentrodd ar y daith eleni a mwynheuon nhw'r profiad yn fawr iawn. Fe'u croesawyd yn ôl i Gymru ym Maes Awyr Caerdydd gan Garwyn Davies, Cadeirydd y Cynllun, ar 15 Awst.

# Bro Morgannwg

Llongyfarchiadau mawr iawn i Martha Clarke, Blwyddyn 7 ar ei buddugoliaeth ym mhencampwriaeth traws gwlad Caerdydd a'r Fro. Pob lwc iddi yn y tymor athletau.



*Martha Clarke*

Fel diweddglo i dymor chwaraeon llwyddiannus cafodd dimau chwaraeon yr ysgol noson allan yn yr UCI. Bu 36 o ferched Blwyddyn 7 yn bowlio deg ac yn cael bwyd yn MacDonalds ar y ffordd adref. Da iawn pawb am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn.



*Noson allan timau merched bowlio deg*

Roedd dydd Mawrth, 19 Mehefin, yn ddiwrnod hanesyddol i Ysgol Gyfun Bro Morgannwg sef mabolgampau cyntaf yr ysgol. Bu'r diwrnod yn un llwyddiannus iawn lle cafwyd safon uchel o gystadlu ac ymroddiad. Yn fuddugol eleni oedd llys Mihangel. Dymuna'r ysgol ddiolch yn arbennig i Mr Ivor Arnold am ei waith caled yn ystod y prynhawn.

## Yr Adran Ieithoedd Tramor Modern

Yn ddiweddar cynhaliwyd cystadleuaeth rhyng-lysol Almaeneg yn yr ysgol. Cafwyd cystadlu brwd wrth i'r disgyblion ymarfer geirfa ac ymadroddion a ddysgwyd yn y gwersi eleni trwy gyfrwng nifer o gêmau parti megis Pictionary neu helfa drysor. Uchafbwynt y weithgaredd oedd cystadleuaeth y côr gyda chôr Cadog, yn canu Meine Familie o dan arweinyddiaeth broffesiynol, Clayton a Thomas o ddosbarth 7B - buddugwyr o drwch blewyn! Braf nodi brwdfrydedd y disgyblion a'r mwynhad oedd i'w weld yn amlwg ar wynebau pawb. Cadog a orfu mewn cystadleuaeth agos - gwell lwc i Illtud a Mihangel y tro nesaf!

Cynhaliwyd bore Ewropeaidd yn yr ysgol ar 6 Gorffennaf. Prif nôd y bore oedd croesawu disgyblion Blwyddyn 6 ysgolion cynradd Cymraeg y Fro i'r ysgol a hefyd i godi ymwybyddiaeth o Ewrop a ieithoedd Ewropeaidd gan fod 2001 wedi ei chlustnodi yn flwyddyn Ieithoedd Ewropeaidd. Bu'r ysgolion cynradd ynghyd â grwp o ddisgyblion Blwyddyn 7 yn ddyfal ers rhai misoedd yn paratoi arddangosfeydd ar rai o wledydd Ewrop a chafwyd cyfle i wneud helfa wybodaeth yn y neuadd wrth edrych ar yr holl waith oedd yn cael ei arddangos. Yn ogystal, manteisiodd disgyblion Blwyddyn 6 ar y cyfle o gael ambell brofiad newydd megis canu, chwarae lotto, neu ddefnyddio'r cyfrifiaduron, trwy gyfrwng y Ffrangeg a'r Almaeneg. Roedd y baneri lliwgar yn y neuadd yn wledd i'r llygad a diolch hefyd i staff y gegin am baratoi gwledd "Ewropeaidd" i bawb yn ystod egwyl a chinio.

**Llongyfarchiadau** i Miss Mari Williams ar lwyddo i gwblhau Marathon Llundain eleni. Rhedodd ei marathon cyntaf mewn amser teilwng iawn gan lwyddo i godi dros £2,000 i elusen Multiple Sclerosis.

**Llongyfarchiadau** i Lloyd Evans, 7G ar gael ei ddewis i chwarae dros dîm pêl-droed dan 13 oed Dinas Caerdydd. Yn ddiweddar hefyd llwyddodd Lloyd i ddod yn bencampwr 100m Cymru o dan 13 dros 100m a dod yn ail yn y râs 200m yn y pencampwriaethau a gynhaliwyd yn Stadiwm Lecwydd. Tipyn o wibiwr!



**Llongyfarchiadau** mawr i dîm hoci yr ysgol ar dymor llwyddiannus iawn. Bu'r merched yn ail mewn cystadleuaeth hoci yng Nghaerdydd a'r Fro. Da iawn pawb ar eu hymdrechion caled drwy'r tymor!



*Tîm Hoci yr ysgol*

## Cytundeb Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

Gan ddechrau'r flwyddyn nesa, am y tro cyntaf erioed, wedi ymgynghoriad rhwng yr Undebau Athrawon a Chyfarwyddwyr Addysg yr 22 o awdurdodau yng Nghymru bydd holl ddisgyblion ysgol drwy'r wlad yn cael eu gwyliau yr un pryd a bydd hyn o ganlyniad yn hwyluso trefniadau rhieni ac athrawon wrth drefnu cyrsiau a gwyliau ac ati.

## Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg

Elusen fach ydy'r Gronfa hon a chanddi'r swyddogaeth o hybu addysg Gymraeg. Mae'r pwyllgor yn barod iawn i estyn cymorth i unigolion neu grwpiau o rieni ac ati sy'n ymgyrchu i sicrhau darpariaeth neu wella darpariaeth addysg Gymraeg yn eu hardaloedd. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Ysgrifennydd y Gronfa sef Bryan James, 52 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QB. Ffôn 029 2056 6731.

# CHWARAEON




## Chwaraeon Olympaidd Arbennig yng Nghaerdydd

Cafwyd seremoni agoriadol liwgar iawn i'r chwaraeon hyn ar gyfer pobl ag anhawsterau dysgu ym Mhrydain a nifer o Wledydd Ewrop yn y Stadiwm Athletau yn Lecwydd ar ddydd Sadwrn, 28 Gorffennaf. Mae dros ddwy fil a hanner o gystadleuwyr gyda'i hyfforddwyr a'u gofalwyr wedi mwynhau wythnos o gystadlu brwd yma yn y ddinas.

## Gêm Dysteb Ryan Gibbs



Nos Fercher, 1 Awst, daeth torf o 67,000 i Old Trafford i weld gêm bêl-droed rhwng Manchester United a Celtic mewn gêm dysteb i Ryan Giggs i gydnabod ei wasanaeth clodwiw i'w glwb dros gyfnod o ddeng mlynedd. Bydd e'n derbyn miliwn o bunnoedd o ganlyniad i'r gêm hon ond bydd peth o'r arian yn mynd i elusennau ym Manceinion. Cafwyd gêm gyffrous a'r sgôr ar y diwedd oedd Manchester United 3 Celtic 4.

## Buddugoliaeth i dîm pêl-droed Tre'r Barri



Ar ôl colli 8-0 yn erbyn tîm FC Porto ym Mhortiwgal ar ddiwedd Gorffennaf daeth FC Porto i'r Barri ar nos Fercher, 1 Awst a'r tro hwn enillodd tîm y Barri 3-1 o flaen torf o 2,500.

## Pennaeth Newydd i Adran Chwaraeon BBC Wales

Brodor o Lanrhymni yng Nghaerdydd ydy pennaeth newydd Adran Chwaraeon BBC Wales sef Nigel Walker, y cyn athletwr a chwaraewr rygbi dros Gymru. Bu'n gweithio i Undeb Rygbi Cymru cyn ei benodiad diweddaraf. Llongyfarchiadau iddo ef yn ei swydd newydd.

## C.R.I.C.C. - CLWB RYGBI IEUENCTID CYMRY CAERDYDD



Fel mae'r enw yn awgrymu, clwb rygbi i ieuenctid yw CRICC, i fechgyn a merched Caerdydd a'r cylch. 'Nawr ar ddechrau ei unfed tymor ar ddeg swyddogol, 'rydym yn cynnal timau rygbi i oedrannau o dan wyth hyd at dan bedair ar ddeg mlwydd oed -- yn agos at 200 o aelodau erbyn hyn.

Y Gymraeg yw iaith swyddogol CRICC a'r nôd yw cynnal pob agwedd o'r gweithgareddau yn Gymraeg gyda chyfeithiadau o'n gohebiaith ar gael i rieni a theuluoedd sy'n ddi-Gymraeg. Yn y gorffennol 'rydym wedi ceisio cynnal yr hyfforddi a'r gêmau ar fore Sadwrn, ond o Fedi 2001 byddwn yn amrywio rhain gyda rhai boreau dydd Sul er mwyn hwyluso'r gwaith o drefnu gêmau. Yn anffodus, CRICC yw'r unig glwb yn Ne Cymru sydd yn ymarfer/chwarae ar ddydd Sadwrn, ac mae hyn yn gwneud y gwaith o drefnu gêmau yn anodd iawn.

Yn ystod y saith mlynedd ddiwethaf bu CRICC yn ymarfer yn Ysgol Gymraeg Plasmawr Caerdydd, ond ym mis Medi 2001 bydd y clwb yn symud i Faes y Diamwnt yn Yr Eglwys Newydd, cartref clwb rygbi Cardiff High School Old Boys -- neu Cardiff Harlequins i rai. Fe fydd y safle newydd yn cynnig nifer fawr o fanteision i CRICC gyda 4 maes rygbi mewn lleoliad diogel, a'r cyfleusterau eraill a ddisgwylir o glwb rygbi o safon fel cawodydd a lolfa fawr glyd !

Erbyn hyn mae CRICC wedi datblygu perthynas gyda nifer o glybiau rygbi pell ac agos sydd yn gwerthfawrogi'n dull chwarae agored a chyffrous sydd yn nodweddiadol o'r clwb. 'Rydym yn chwarae, ac yn dal ein tir yn erbyn clybiau amlwg fel Penarth, Pentyrch a Llandaf yn lleol, Llanymddyfri a Phontarddulais o'r fro Gymraeg a phob yn ail flwyddyn byddwn yn ymweld â chlwb Prifysgol Brest yn Llydaw gyda'n timau hyn.

Felly os oes diddordeb gan eich plentyn/plant chi mewn chwarae rygbi o safon drwy gyfrwng y Gymraeg, dewch atom â phleser. Rhaid i'r plentyn fod o leiaf yn 6 mlwydd oed ac nid yn hyn na 14 mlwydd oed ar y cyntaf o Fedi 2001.

Mae 'na groeso hefyd i rieni gymryd rhan mewn nifer o ffyrdd. Wrth hyfforddi -- 'rydym yn talu i rieni fynychu cyrsiau swyddogol Undeb Rygbi Cymru. Rhaid iddynt fedru'r Gymraeg i fod yn brif hyfforddwr blwyddyn arbennig ond mae 'na alw am rieni i gynorthwyo hyfforddwyr gyda threfniadau tîm, edrych ar ôl Cymorth Cyntaf, safle wê a materion mwy syml ond pwysig fel glanhau ystafelloedd newid ar ôl ymarfer a gêmau.

Dewch atom felly â phleser. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch ag unrhyw un o'r swyddogion neu os am enw ffoniwch Huw Jones ar Caerdydd 20842811 gyda'r nos neu ar y penwythnos.


## CRICC

**Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd**

Nawr ar ddechrau yr 11eg tymor gyda'n agos at 200 o aelodau - Dan 8 hyd at Dan 14.

Mae angen enbyd am hyfforddwyr neu is-hyfforddwyr.

Oes modd i CHI ein helpu??

Os oes diddordeb codwch y ffôn a siaradwch â : Huw Jones, Prif Hyfforddwr: Caerdydd 2084 2811


## Cyfarfod Cyhoeddus Cyngor Celfyddydau Cymru

Fe'i cynhaliwyd yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd ar 13 Gorffennaf a chroesawyd tri aelod newydd i weithredu ar y Pwyllgor sef Meg Elis, Dewi Walters a Janet Roberts. Yr aelodau eraill ydy Sybil Crouch (Cadeirydd), Dai Davies, Dr Hazel Walford Davies, Roger Davies, Edmond Fivet, Stephen Garrett, Ellen ap Gwyn, Harry James, Daniel Jones, Geraint Lewis, Alan Lloyd, Penny Ryan a Clare Thomas. Cynhelir chwe chyfarfod y flwyddyn sy'n agored i'r cyhoedd gan y Cyngor a bydd y cyfarfod nesaf ar 12 Hydref. Am fanylion ymhellach ffoniwch 029 2037 6500.

## Eglwys Dewi Sant

Eleni o Orffennaf 23-26 ymunodd grŵp o aelodau Eglwys Dewi Sant ym mhererindod Esgobaeth Llandaf i Walsingham yn Swydd Norfolk. Yr Esgob Barry oedd yn arwain y bererindod a'r Parchg Meurig Llwyd a'n symbylodd ni i ymuno ynddi. Mae hon yn bererindod flynyddol o'r esgobaeth ond dyma'r tro cyntaf i Eglwys Dewi Sant gymryd rhan.

Roedd rhyw dri chant i gyd, mewn chwe bws, y rhan fwyaf ohonynt o eglwysi'r Cymoedd. Braf iawn oedd inni o'r ddinas gael eu cwmni a dod i adnabod ein gilydd. Maen nhw'n llawn brwdfrydedd a hwyl. Er eu bod wedi colli llawer o'r Gymraeg, maen nhw'n Gymry i'r carn a'u calonnau yn iawn. Cyfrannon nhw lawer at ein mwynhad yn ystod y pedwar diwrnod a gobeithiwn gael mwy o gysylltiad â nhw yn y dyfodol.

Roedd cael arweiniad a chwmni'r Esgob Barry yn bleser ac yn anrhydedd. Diolch am ei ymrwymiad i'r Gymraeg. Am y tro cyntaf clywyd y Gymraeg yn Walsingham.

Cawsom amser da gyda phrofiadau a boddhad ysbrydol. Diolch i'r Parchg Meurig Llwyd am godi'r awydd ynon ni a'n helpu i gael bendith o'r cyfan. Edrychwn ymlaen gyda gobaith at y flwyddyn nesaf.

**Morfudd Stone**

## Capel Salem, Treganna
## Canu'n iach â Mrs Nina Hughes

Nos Fawrth, 3 Gorffennaf, cafwyd swper hafaidd, hyfryd yn y festri, i ffarwelio â Mrs Nina Hughes wrth iddi symud o Gaerdydd i Abertawe er mwyn bod yn agosach at ei merch sydd wedi hen gartrefu yno.

Fe fydd hi'n chwith iawn i ni, yn Salem, hebddi gan iddi fod yn rhan annatod o'r eglwys ers 1969 pan ddaeth ei gŵr, y Parchg Iorwerth Hughes, yn weinidog arnom tan ei ymddeoliad oherwydd salwch yn 1975.

Athrawes wyddor-tŷ oedd Mrs Hughes er iddi ddysgu mewn ysgolion cynradd hefyd. Bu'n dysgu yn Abertawe adeg yr Ail Ryfel Byd a diddorol dros ben yw ei hanesion am y cyfnod hwnnw pan fu'n helpu bwydo'r plant a'r teuluoedd a ddeuai i'r shelters adeg y bomio. Aeth yn athrawes wyddor-tŷ i Ysgol Uwchradd Hawardian wedyn cyn dychwelyd i ddysgu ym Merthyr - ei thref enedigol. Yno y cyfarfu â'i gŵr a phriodi a dod ymhen y rhawg i Salem.

Bu'n gefn i fywyd ysbrydol ac ymarferol Salem ar hyd y blynyddoedd. Bob amser yn ddoeth ei chyngor a chadarn ei barn, bu'n "gymorth hawdd ei gael" i bawb ohonom ar adeg o ddathlu neu o alaru. Ac fe wyddai hi'n well na neb ohonom am y ddeubeth hynny.

Gydag edmygedd a diolch y ffarweliwn â pherson arbennig iawn fel y tystiodd y Parchg Evan Morgan, Haydn Thomas, a Dafydd Owen yn gyhoeddus noson y ffarwelio. Fe welwn eisiau ei chwmni a'r wên ddireidus yn ei llygaid, ond dymunwn bob hapusrwydd iddi yn Abertawe. Diolch Nina.

## GWASANAETH CYFAMODOL ENFYS

Fe gynhaliwyd y Gwasanaeth Cymun Bendigaid gan Eglwysi Cyfamodol Cymraeg ENFYS, Caerdydd a Bro Morgannwg i ddathlu'r Cyfamod eleni ym Methel (Y Capel Methodistaidd), Rhiwbina, Caerdydd. Gwasanaethpwyd gan y Gweinidog, y Parchg Evan Morgan a chydweinyddwyd y Cymun a darllenwyd rhannau o'r ysgrythur gan y Parchedigion Meurig Llwyd Williams (Rheithor Eglwys Dewi Sant), Evan Morgan (Gweinidog Salem a Bethel) a'r Canon Alan Luff (Eglwys Dewi Sant). Darllenwyd yr emynau gan aelodau o'r eglwysi cyfamodol a chyfeiliwyd gan yr organydd Richard Elfyn Jones. Traddodwyd y bregeth gan y Parchg Gethin Abraham Williams, (Ysgrifennydd Cyffredinol CYTUN). Nid oedd yn bosib i'r Parchg Dewi Llwyd Lewis fod gyda ni oherwydd salwch.

Roeddem yn falch fod yr Esgob Cledam Mears wedi troi i mewn atom i'r gwasanaeth arbennig yma. Cofiwn ei wasanaeth ers llawer dydd gyda chynlluniau'r Eglwysi Cyfamodol.

**R Emrys Jones** (Pwyllgor Enfys, Caerdydd a Bro Morgannwg)

---

## Marw Cymro Pybyr

Cydymdeimlir â theulu y diweddar Graham Lennox Smith, Rhiwbina a fu farw yn Ysbyty'r Mynydd Bychan ar 20 Gorffennaf. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 27 Gorffennaf. Graddiodd yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth a bu'n gweithio i'r Bwrdd Glo. Brodor o'r Barri ydoedd a dysgodd Gymraeg fel oedolyn. Mynychai Gapel Minny Street yn aml ac yr oedd yn aelod o Gôr Hamdden Caerdydd, Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina a Chymdeithas Tŷ'r Cymry. Roedd yn Gymro pybyr a bydd colled ar ei ôl.

## Colli Dr Roderic Bowen QC

Yn 87 oed bu farw Dr Roderic Bowen yn Ysbyty Llandochau ar 18 Gorffennaf. Bu'r angladd yn Eglwys y Crwys ar 27 Gorffennaf ac yn dilyn ym mynwent y Ddraenen yn Llanisien. Cafodd yrfa ddisglair ac fe'i haddysgwyd yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth a Choleg San Ioan yng Nghaergrawnt. Fe'i etholwyd yn Aelod Seneddol Ceredigion yn 1945 a rhwng 1950 a 1967 bu mewn swyddi fel Cofrestrydd Llysoedd yng Nghaerfyrddin, Merthyr Tudful, Abertawe a Chaerdydd. Cafodd ei wneud yn QC yn 1952. Cafodd ei ethol yn Llywydd y Blaid Ryddfrydol yng Nghymru yn 1948 ac yn 1955 cafodd ei ethol yn Gadeirydd y Blaid Seneddol Gymreig. Yn ddiweddarach daeth yn Ddirprwy Lefarydd y Tŷ Cyffredin. Ymddeolodd o fyd gwleidyddiaeth yn 1966 ond yn ystod y saithdegau bu'n cadeirio'r Pwyllgor a fu'n gyfrifol yn y diwedd am sicrhau arwyddion dwyieithog yng Nghymru. Fe'i urddwyd yng Ngorsedd y Beirdd adeg Eisteddfod Casnewydd. Hefyd bu'n Llywydd Coleg y Brifysgol Llanbedr. (Gweler dud. 14)

## Rhif i'w Gofio

Mae rhif ffôn newydd ar fin cael effaith fawr ar y ffordd mae'r Cyngor Sir yn cynnig gwasanaethau i drigolion Caerdydd.

Bydd cynllun peilot C2C (Cysylltu a Chaerdydd), yn agor yn Nhŷ Marland, y Sgwâr Ganolog ar ddiwedd y mis. Y gobaith yw y bydd y gwasanaeth newydd yn gallu cynnig siop-un-stop i ddatrys 80% o'r ymholiadau yn y pwynt cyswllt cyntaf.

Bydd C2C yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a fydd yn eich galluogi chi i gysylltu â'r cyngor dros y ffôn, drwy ffacs, e-bost, teledu rhyngweithiol neu'n syml, wyneb yn wyneb - a bydd gwasanaeth arbennig ar gael i siaradwyr Cymraeg.

Ar y cychwyn, bydd y cynllun yn ymdrin â detholiad o wasanaethau gan gynnwys gwastraff swmpus, prydau ysgol di-dâl, taliadau'r Cyngor, bathodynnau i'r anabl, cwynion corfforaethol yn ogystal ag ymgynghoriadau cyhoedus a llinellau gwybodaeth.

Cadwch lygad yn agored am yr hysbysebion - ond cofiwch, wrth feddwl am y Cyngor, y rhif i'w gofio yw 2087 2088.

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r haf ac wedi defnyddio'ch Cymraeg bob dydd! Cofiwch os nad oes neb arall, mae pob ci a chath yn deall Cymraeg - roeddwn i'n gwarchod cath drws nesa' a daeth hi i ddeall geiriau fel "na", "paid", "cer i lawr", "'nghadair i yw hon", ac ati. Wnaeth hi ddim ufuddhau, cofiwch, ond roedd hi'n deall yn iawn.

Roedd rhaid imi fynd i'r dre' i brynu silffoedd newydd ar ôl yr Eisteddfod eleni. Nid 'mod i wedi gwario cymaint o arian ar lyfrau â rhai, efallai, ond mae llwyth o rai newydd yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau mis Awst, heb sôn am y stondinau llyfrau ail-law sydd ar y maes. Yn ogystal â hyn, mae 'bargeinion' i'w cael ym mhob stondin bron. Does dim rhyfedd, felly, imi ddod 'nôl o Ddinbych gyda llond cist car o lyfrau. Rhai newydd yn arbennig i ddysgwyr yw Gwendolin Parri PI gan Meleri James a Pwy Sy'n Cofio Siôn? gan Mair Evans. Ac wedyn mae llyfr blynyddol Mihangel Morgan, wrth gwrs - y tro 'ma Y Ddynes Ddirgel, dilyniant i'r enwog Dirgel Ddyn. Mae digon o ddefnydd darllen i bara tan y 'Dolig, gobeithio.

Os ydych chi'n chwilio am gwrs ar gyfer yr Hydref, mae nifer helaeth i'w cael eleni. Daliwch ati - mae'n werth yr ymdrech! Ac os ydych chi eisiau ymarfer eich Cymraeg ac wedi blino wrth siopa yn Heol Albany, dewch i adeilad yr Eglwys Efengylaidd Cymraeg ar gornel Stryd Harriet a Rhymney Terrace (tu ôl i Heol Crwys) ar y bore Sadwrn cynta'r mis. Gallech chi bigo i mewn unrhyw bryd o 10.30 i 12.00 i gael coffi a chlonc. Mae'r sesiwn gynta' ar y 6ed o Hydref. Cofiwch hefyd gyfarfod CYD yn nhafarn y Tavistock am 9.00 ar nos Fercher.

GEIRFA

gwarchod - *to look after*
gwario - *to spend (money)*
cymaint - *as much*
llwyth - *a load*
cyhoeddi - *to publish*
llond cist car - *a full car boot*
dilyniant - *sequel*
defnydd - *material*
helaeth - *vast*
ymdrech - *effort*

## Angen Tiwtoriaid Iaith

Mae Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, yn chwilio ar fyrder am diwtor profiadol i ddatblygu a dysgu modiwlau gloywi iaith (yn ysgrifenedig ac ar lafar) i fyfyrwyr iaith gyntaf ac ail iaith yn yr Adran ac ar draws y Brifysgol. (Ceir rhagor o fanylion ar y We: http://www.caerdydd.ac.uk/). Mae'r Adran hefyd yn chwilio am diwtoriaid iaith i ddysgu Cymraeg i oedolion (rhan-amser a llawn-amser) yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg, i ddechrau fis Medi. Am ragor o fanylion ynghylch y cyfleoedd hyn, cysyllter â'r Athro Sioned Davies, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Blwch SP 910, Caerdydd, CF10 3XW (Ffon: 2087 4843).

## Cyfres y Cymoedd



Bydd Gwasg Gomer yn lawnsio'r nawfed yng Nghyfres y Cymoedd, sef Merthyr a Thaf, cyfrol sy'n edrych ar gwm Afon Taf o Ferthyr hyd at Gaerdydd, nos Fercher 19 Medi ym Mhontypridd , yng nghwmni golygydd y gyfrol, yr Athro Hywel Teifi Edwards a chwmni lleol. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach cysylltwch â'r wasg ar 01559 362371 neu e-bostwch bethan@gomer.co.uk.

## Y Border Bach — gan Hwn a Hon



Y rheswm am absenoldeb 'Y Border Bach' yn ddiweddar yw bod Hwn a Hon wedi symud tŷ - gyda'r holl brysurdeb cysylltiedig.

Y cyngor arferol pan cewch eich hunan mewn gardd newydd yw peidio gwneud dim am flwyddyn ar wahân i'w chadw'n daclus er mwyn gweld pa drysorau a ddaw i'r amlwg. Mae'n gyngor ddigon doeth ar y cyfan gan fod y mwyafrif o bobl am gael y ty^ i drefn yn gyntaf. Ond fel pob cyngor mae'n haws dweud na gwneud. Mae'r ysfa i wneud rhywbeth yn gallu bod yn gryf.

Cyngor arall mewn gardd newydd yw defnyddio blodau blynyddol am yr haf cyntaf ac yna plannu llwyni a blodau parhaol pan fyddoch yn gwybod pa rannau sy'n cael fwya o haul, neu sydd bob amser yn y cysgod. Mae yn yn ffordd rad o gael lliw cyflym ac i lanw bylchau.

Gallwch hefyd ddibynnu ar flodau mewn potiau tra eich bod yn breuddwydio eich cynllun mawreddog! Gallwch dyfu bron unrywbeth mewn pot - bylbiau a llwyni - hyd yn oed llysiau a ffrwythau dim ond i'r pot fod yn ddigon mawr.

Ar ôl ryw 3 mis yn fy ngardd newydd roeddwn yn credu nad oedd llawer o drysorau yn mynd i'w hamlygu eu hunain. Mwy na thebyg mae'r rheswm oedd fy mod wedi symud yng nghanol y Gaeaf pan roedd y rhan fwyaf o'r llwyni â brigau noeth ac anodd oedd dyfalu beth oeddynt. Ond erbyn hyn mae dail a blodau arnynt ac mae pethau'n edrych yn fwy gobeithiol. Er hynny, rhaid bod yn amyneddgar am ychydig yn hirach gan fod pethau newydd yn dal i ymddangos mewn mannau annisgwyl.

Mae'n siŵr mai'r tueddiad yw plannu yr un pethau a oedd gennych yn eich gardd flaenorol, ond mae symud yn gyfle da i dyfu pethau gwahanol. Byddwch yn anturus!

## Apêl CSV (Gwirfoddolwyr Gwasanaeth Cymunedol)



Dros y flwyddyn diwethaf mae 600 o bobl ifanc Cymru wedi gwirfoddoli gyda CSV gan gynnwys Rhiannon Kemp, cyn ddisgybl Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ac yn dod o Benarth. Ers Ebrill eleni mae Rhiannon wedi bod yn gweithio gyda Thîm Troseddu Ieuenctid Gwynedd, Ynys Môn sy'n rhoi cefnogaeth i droseddwyr ifanc. Mae Rhiannon yno i helpu'r bobl ifanc i wneud defnydd da o'u hamser hamdden ac i fod yn rhywun all gynnig help a chyngor drwy un o gyfnodau anoddaf eu bywyd. Dywed Rhiannon "Dwi wedi mwynhau'r profiad o weithio gyda'r bobl ifanc ac mae'r gwaith wedi bod yn agoriad llygad i mi". Ar ôl ei chyfnod o weithio hefo CSV mae Rhiannon yn bwriadu mynd i'r Brifysgol i astudio Drama a Seicoleg. Gall unrhyw un rhwng 16-35 oed sy'n barod i symud oddi cartre am rhwng 3 a 12 mis fod yn wirfoddolwr gyda CSV. Bydd y person yn derbyn bwyd, llety, costau teithio a lwfans wythnosol o £26.50. Am fwy o fanylion ffoniwch Branwen Miles ar 2066 6737.

## Cymdeithas Cymrodorion Y Barri

Daeth tymor llwyddiannus y Gymdeithas i ben ar nos Wener, 8 Mehefin gyda Dr Siân Rhiannon yn ein tywys ar daith hanesyddol a diddorol i Gwm Rhymni. Fe fyddwn yn cychwyn tymor 2001-2 ar nos Fawrth, 18 Medi pan edrychwn ymlaen at noson yng nghwmni'r Prifardd Aled Gwyn.

Mae'r Gymdeithas yn cyfarfod ar y drydedd nos Fawrth yn y mis am 7.15 y.h. yn Festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri. Mae na raglen ddiddorol ac amrywiol wedi ei pharatoi eleni eto. Edrychwch ar galendr Y Dinesydd am fanylion pellach o'r cyfarfodydd neu gysylltwch â'r Ysgrifenyddes ar 01446 732203.

## Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru

Perfformir pedair opera yn Theatr Newydd Caerdydd dros y cyfnod Medi 12 - Hydref 6, sef "Leonore", "The Barber of Seville", "La Bohème" a "Beatrice a Benedict". Am fwy o fanylion ffoniwch Hazel Hardy, Swyddog y Wasg ar 029 2046 4666.



## Pennaeth Newydd Cyngor y Celfyddydau

Penodwyd Peter Tyndall, 45 oed o Fro Morgannwg yn bennaeth newydd Cyngor y Celfyddydau yng Nghymru. Mae e'n gweithio i Gymdeithas Llywodraeth leol yng Nghymru ar hyn o bryd a bydd yn ymgymryd â'i ddyletswyddau newydd ar dechrau mis Hydref.

## Canolfan Bedwyr Bangor

Mae Canolfan Bedwyr wrthi'n llunio cronfa ddata gyntaf o gyfeiriadau dwyieithog yng Nghymru ar ran Cyfeiriadau Cymru. Mae'r Ganolfan yn chwilio am unigolion neu dîm o bob ardal yng Nghymru sydd â diddordeb mewn enwau strydoedd a thai a fydd yn fodlon bwrw golwg dros restr enwau eu hardal i'w gwirio. Os oes diddordeb gennych chi yn y gwaith cysylltwch â Gwenno Roberts ar 01248 383607.

## Wythnos Iâr Fach yr Haf, 22-29 Medi

Cefnogwch waith clodwiw Tŷ Hafan, Hosbis y plant yng Nghymru yn y Sili drwy gynnal bore coffi neu de parti at yr achos yn ystod y cyfnod 22-29 Medi a ddynodir fel Wythnos Iâr Fach yr Haf. Penderfynwyd ar yr enw Iâr Fach yr Haf fel symbol o fywyd prydferth ond byr y plant a ddaw i'r Hosbis. Am fwy o fanylion ffoniwch 01446 739993.



## Dathlu'r Deugain Medi 21-30, 2001

Mae nifer o ddigwyddiadau wedi eu trefnu yn Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug i ddathlu pen-blwydd yr ysgol yn ddeugain oed. I unrhyw gyn ddisgybl sy'n byw yng Nghaerdydd a'r cyffiniau mae croeso i chi ymuno yn y dathlu felly am fwy o fanylion ffoniwch yr ysgol ar 01352 750678.

## Argraffwasg newydd i'r Western Mail a'r Echo

Erbyn diwedd 2002 gobeithir symud y gwaith o argraffu y Western Mail a'r Echo a nifer o gyhoeddiadau eraill o'i safle presennol yn Stryd Havelock ynghanol y ddinas i safle ger Bae Caerdydd gan ddefnyddio peiriannau newydd a mwyaf modern i hwyluso'r gwaith. Bydd y bwrdd golygyddol a'r gohebwyr ac ati yn dal i weithio o Dŷ Thomson fel arfer.

## Warden Neuadd John Morris-Jones, Bangor yn ymddeol



Ym mis Medi cynhaliwyd penwythnos o weithgareddau yn Neuadd Gymraeg John Morris-Jones, Prifysgol Bangor ar achlysur ymddeoliad y Warden Dr John Llywelyn Williams neu John Llew i lu o fyfyrwyr Cymraeg a fu'n byw yn y Neuadd dros y blynyddoedd. Yn sgil ei ymddeoliad penderfynwyd sefydlu Cronfa Fynediad i fyfyrwyr y dyfodol yn ei enw a felly apêl ydy hon i unrhyw gyn-fyfyriwr a fu'n byw yn y Neuadd i gyfrannu ei hatling tuag at y gronfa. Gyrrwch eich sieciau yn daladwy i "Undeb Myfyrwyr Bangor" at Lywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor, Prifysgol Cymru Bangor, Rhadbost Bangor, Gwynedd LL57 1BR.

## Llywydd Newydd i Brifysgol Bangor

O ganlyniad i farwolaeth Llywydd Prifysgol Bangor sef yr Arglwydd Cledwyn o Benrhos etholwyd yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas yn Llywydd i'w olynu gan Lys y Brifysgol. Mae e'n gyn fyfyriwr ym Mangor ac am amser byr bu'n darlithio yno cyn dod yn Aelod Seneddol. Fe'i sefydlwyd yn swyddogol yn Llywydd yn ystod Seremoni Raddio'r Brifysgol ar 11 Gorffennaf. Llongyfarchiadau iddo ar yr anrhydedd a ddaeth i'w ran.

## Cwis teledu "Cerdyn Post"



Mae cwmni Alfresco yn edrych am dimau o ddau i gystadlu am wyliau a gwobr ariannol yn y gyfres newydd ar S4C rhwng 11 Medi - 27 Tachwedd. Beth am gystadlu? Ffoniwch 029 2072 6726 am ragor o fanylion.

## Swyddog Clerigol Newydd

Oherwydd yr holl brosiectau newydd sydd gan Fenter Iaith Caerdydd rydym yn falch i ddatgan bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi rhoi arian ychwanegol i ni gyflogi Swyddog Clerigol. Swydd lawn amser ydyw ond ystyrir ceisiadau i rannu swydd. Cynigir cyflog o £8-£11,000 (a phensiwn). Dylai'r rhai sydd â diddordeb anfon CV a llythyr cais at Gareth Kiff, Menter Iaith Caerdydd, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Caerdydd CF24 3AJ neu ffonio 029 2045 0529 am ddisgrifiad swydd.

## Swyddog Technoleg Gwybodaeth

Mae cais consortiwm i Lloyds/TSB gan fentrau iaith yr ardal (Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Caerffili ac Ogwr) wedi llwyddo ac o fis Medi ymlaen cyflogwn Swyddog Technoleg rhan amser i hyfforddi staff y mentrau, diweddaru ein gwefnnau ac ati. Gyda llaw ydych chi wedi ymweld â ni ar y we eto? Ffeindiwch chi ni ar www.mentrau-iaith.com

## Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol yn newid ei enw

Ers Ebrill mae'r Bwrdd Elusennau wedi newid ei enw a bellach fe'i gelwir yn Gronfa Gymunedol gyda'r bwriad o ddosbarthu arian er mwyn cefnogi Cymdeithasau elusennol, llesiannol a dyngarol. Mae 17 aelod yn gweithredu ar y Bwrdd Prydeinig gan gynnwys y Cadeirydd. Aelodau Pwyllgor Cymru yw Elisabeth Watkins (Cadeirydd), Jeff Carroll a Rhiannon Bevan a chyfetholwyd tri sef Margaret Davies, Aled Siôn a Dr Glyn Williams. Am ymholiadau a manylion pellach ar sut i wneud cais am gymorth ffoniwch Debbie ar 01352 700208.

## Havard Gregory yn cofio Roderic Bowen

Y peth cyntaf y mae colli ffrind yn ei beri yw inni sefyll yn stond yn ein hunfan. Am foment fe balla'r cloc, a daw rhediad amser i stop sydyn. Profiad felly fu clywed am farw Roderic Bowen, a gyfoethogodd gymaint ohonom â'i gyfeillgarwch afieithus. Cawsom bawb gyfeillion hir flynyddoedd a adawodd wagle mawr o'u colli, a ffrind felly oedd Roderic i laweroedd.

Wrth i olwyn amser ail-fynd i'r afael, daw'r cof i lenwi'r gofod. Un o'r union bethau cyntaf a ddigwyddodd imi wedi'r sioc oedd cofio'n sydyn ddigwyddiad nad oedd erioed wedi codi i'r wyneb er pan ddigwyddodd imi bron hanner canrif yn ôl.

Roeddwn mewn trên o Lundain ar y ffordd adref i Gaerdydd yn y 50au, cyn diwedd oes euraidd y ffordd haearn, pan gâi pob teithiwr gysur ystafell fach gartrefol gyda hanner dwsin ar y mwyaf o gyd-deithwyr, a chymhelliad cryf i sgwrsio â'i gilydd oddi mewn i'r muriau clos, o dan ddrych a'ch helpai i unioni eich tei a'ch het wrth gyrraedd pen y daith, a lluniau sepia hen yn edrych lawr ar y cwmni - pont Mawddach a chwmwl hir y mwg gwyn yn hedeg o'r injin, neu wartheg dof ar y ffordd adref yng nghefn gwlad Dyfnaint - i'n hatgoffa bod y trên yn gallu mynd â ni i baradwys nad oedd fyth ymhell i ffwrdd.

Yn yr awyrgylch gartrefol honno y cyfarfum gyntaf â Roderic. Ni chofiaf beth fu'r sgwrs, nac ychwaith pwy arall a oedd yno; ond er na chawsom ail-gyfarfod hyd nes deuthum yn ôl drachefn i Gaerdydd ar ddechrau'r 80au, bu ein hail-gwrdd fel pe'n gyfle i gydio yn hen gyfeillgarwch y sgwrs y bu'n rhaid ei chloi wrth gyrraedd gorsaf Caerdydd flynyddoedd cyn hyn. Y gwahaniaeth mawr oedd inni bellach fod ar delerau 'ti-a-tithe'.

Cael cwmni Roderic fu un o freintiau mawr bod yn aelod o Glwb Cinio Caerdydd. Bu nifer o rai siaradus a huawdl yn y Cylch dros y blynyddoedd er pan sefydlwyd ef yn nechrau'r 50au. Ond ni bu neb mwy siaradus na Roderic. Ac nid siaradus yn unig mohono. Gallai gydio mewn unrhyw beth a ddywedai un arall, a helaethu arno, diolch i'w gof di-bendraw am bobol a digwyddiadau. Ni ddôi byth wahaniaethau gwleidyddol i'r amlwg yn ein hymgonio er mor frwd ei deyrngarwch i'r Blaid Ryddfrydol - y bu cymaint o'i haelodau amlycaf, mae'n ei rhaid gofnodi, yn amlwg iawn yn eu habsenoldeb yn angladd Roderic. Da fu gweld yr Arglwydd Emlyn Hooson yno'n â'i deyrnged olaf i'w hen gyfaill.

Ond nid ei gof yn unig a ffrydiai'n llif, eithr ei hiwmor afieithus. Bu un adeg pan gawsom anerchiad difrif tu hwnt ar destun cymdeithasol eitha pwysig, ond heb un cyffyrddiad ysgafn a fyddai wedi bod yn addas ar noson o'r fath. Geiriau o ddiolch gan Roderic a rannodd y cymylau trymion, gan ddod â haul drachefn i'n plith. Meddai ar ddawn ddi-feth i ddweud pethau gwerth eu clywed yn ddeheuig a lliwgar, gan droi pob cyfarfyddiad yn wir gyfeillach.

Ei gof hir oedd gyfaredd, - a hudol
Nodiant ei lafarwedd.
A ninnau'n lwth am y wledd
O loniant 'i afradlonedd.

Gofynais iddo droeon i adael imi recordio rhai o'i atgofion, ond ni fynnai wrando; a'i unig ateb fyddai cerydd bach a ymylai ar fod yn ddi-amynedd. Nid myfi fu'r unig un i ofyn iddo "Ga'i ddod draw i recordio rhai o'th atgofion?" "Na! Chei di ddim o gwbwl!" fyddai'r ateb swta a phendant bob tro. Y canlyniad fu inni golli perlau rif y tywod mân.

Daw i'r côf eiriau soniarus yr hen Kilsby Jones ganrif a chwarter yn ôl yn ei ragymadrodd i gofiant D. Afan Griffith o David Williams, Troedrhiwdalar - geiriau y mae eu huodledd mor berffaith gymwys i'r hen gyfaill annwyl Roderic: "Claddwyd yn yr un bedd ag ef dyrfa o atgofion am bersonau nad oes gynifer ag un dyn neu ddynes yn aros a gafodd y fraint o'u gweled; personau y rhwydd roddasai y tlotaf o wron-addolwyr eu dimai olaf am yr anrhydedd o gyffwrdd ag 'ymyl eu gwisg'; hanes lluaws o gyfnewidiadau mewn 'byd ac eglwys' yr ydoedd ef y llygad-dyst olaf o'u hachosion, dechreuad, a'u cynydd, a'r rhai ni allasai neb roddi darluniad mwy byw-debyg a chyffrous. Ond, ysywaeth! ... nid oedd a fynnai â gwneud cymaint defnydd o'i bin ysgrifennu ag o'i offer llafar, a'r canlyniad yw fod niferi o bethau amhrisiadwy werthfawr wedi suddo i waelodion ebargofiant, heb un posibilrwydd iddynt gael atgyfodiad yn ein byd ni. Pe byddai wedi ysgrifennu ond degwm yr hyn lefarodd, cawsai ei fywgraffydd grugiau a phentyrrau o ddefnyddiau er cyfodi cofadail iddo."

Onid dyna eiriau hollol gymwys i Roderic?

Un o'r troion olaf imi ei weld oedd wedi iddo wahodd Rhiannon a minnau i gyfarfod arbennig o Gymdeithas Islwyn, yr oedd yn Llywydd arni ers cyfnod helaeth. Roedd Islwyn yn bennaf arwr ganddo, ac roedd am imi ei gefnogi yn ei hoffter arbennig o:

Gwêl uwchlaw cymylau amser,
O! fy enaid, gwel y tir,
Lle mae'r awel fyth yn dyner,
Lle mae'r wybren fyth yn glir:
Hapus dyrfa
Sydd yn nofio yn ei hedd.

Collais y cyfle, cyn i Roderic farw, i drafod gydag ef y ffaith nad yw'r penillion cofiadwy yma yn y gyfrol newydd *Caneuon Ffydd.* Tybed ai, fel yr awgrymodd Rhiannon wrtho wedi'r ginio yng Nghanolfan Coffa Islwyn yng Ngwent, am mai penillion dyneiddiol yw geiriau Islwyn? Ar y pryd, ei ateb byr a llechwraidd ddireidus iddi oedd "Cawn ni drafod hynna rywbryd arall!"

Beth bynnag fu rheswm Bwrdd Golygyddol y llyfr newydd, rwy'n siwr na all hynny darfu
ar yr wybren glir yr ochor draw, a Roderic yn ei chanol yn arllwys o'i atgofion daear ar dyrfa y mae'n rhaid ei bod, fel ninnau gynt, yn hapus wledda ar bob gair o loniant ei afradlonedd.

Gyda llaw, rhwng Llundain a Chaerdydd y rhennais ystafell trên â Chymro amlwg arall yn ystod y 50au. Ond ni chefais gysgod cyfle gan y gwr hwnnw i dorri gair ag e'. Roedd ei olygon yn ddwfn mewn cyfrol am hen seintiau'r bumed a'r chweched ganrif. Un cyfle ichi ddyfalu pwy ydoedd.

Ie! Saunders Lewis!

## Prosiect Hanes Llafar - Menywod yng Nghymru 1920-1960

Mis Medi y llynedd cychwynwyd y prosiect cyffrous hwn gyda chymorth Cronfa Treftadaeth y Loteri ac fe'i hariannwyd am ddwy flynedd. Bwriad Mudiad Merched y Wawr sy'n gyfrifol am y prosiect ydy casglu mil o dapiau o leisiau Merched y Wawr dros Gymru yn adrodd hanes eu bywydau a'r ffordd o fyw yn eu gwahanol gymunedau ac yna caiff y tapiau hyn eu cadw yn ddiogel yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Catrin Stevens sy'n ddarlithwraig hanes yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, ydy Cyfarwyddwraig y prosiect a hi hefyd ydy Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr ar hyn o bryd. Am fwy o fanylion am y prosiect hwn ffoniwch Ruth Morgan yng Ngholeg y Drindod ar 01267 676737.

## Croeso'n ôl Llwyd!

Dechrau Mehefin dychwelodd Llwyd Owen, mab Arwel a Non Owen, adre i Glôs Dan y Coed, Cyncoed ar ôl pymtheng mis o deithio yng Ngwlad y Tai, Awstralia, Seland Newydd a'r Aifft.

## Côr Godre'r Garth angen Cyfeilydd/es

Mae Côr Godre'r Garth yn gwahodd cyfeilyddion piano i gynorthwyo un o gorau cymysg mwyaf Cymru. Mae'r côr yn ymarfer ar nos Sul yn Efail Isaf ac yn cynnal cyngherddau lleol a thramor.

**Os oes diddordeb gennych ffoniwch yr arweinydd, Wil Morus Jones 01443 404001**

---

# TRYDANWR

**gyda dros 20 mlynedd o brofiad**

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

**ar 029 20868208**

**neu 07967 559664**

---

## Ar Osod

**Fflat hyfryd yng Nghaerdydd**

Dwy ystafell wely, golygfa, balconi. Addas i un neu ddau berson neu bar heb blant

**£400 y mis**

**Cysylltwch â Mr Jones ar 02920 627649**

---

AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF

*Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â*


## Geraint B. Llewelyn

LL.B. B.A(ADD) MLIA (DIP)

291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED, CAERDYDD, CF23 6PA
FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORUCHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL


---




---

# RALI GLYNDŴR

2pm ddydd Sadwrn
15 Medi 2001
Y Cynulliad,
Caerdydd



DEWCH YNGHYD I FYNNU

**DYFODOL I'N CYMUNEDAU CYMRAEG**

**A**

**DEDDF IAITH I'R GANRIF NEWYDD!**

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Penroc, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AZ. • 01970 624501 • swyddfa@cymdeithas.com
www.cymdeithas.com

TELYNAU
VINING
HARPS

Dosbarthwr telynau Camac
Distributor of Camac harps

**Mae telynau ac offer telyn Camac ar gael drwy gwmni Telynau Vining, Caerdydd... denyddiau, crefftwaith a sain o safon uchel am bris cystadleuol.**

**Telynau pedal**
**Telynau Celtaidd**
**Telynau trydan**
**Offer telyn**
**Gorchuddion telyn**
**Telynau i'w rhentu**

**Cysylltwch â Elen Vining**

**Telynau Vining Cyf.**
21 Heol Wingfield, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 1NJ
Ffôn/Facx (0290) 529084
E-bost: telynayviningharps@cwcom.net

Meithrinfa Gymraeg

Miri Mawr

19 Ffordd Gabalfa, Ystum Taf, Caerdydd

Ym mis Medi bydd meithrinfa Gymraeg newydd yn agor yn Ystum Taf yng Nghaerdydd ar gyfer plant o chwe wythnos oed hyd at bum mlwydd oed. Bydd y feithrinfa yng ngofal dwy athrawes brofiadol a bydd yn darparu'r gofal a'r addysg orau trwy gyfrwng Gymraeg.

**Felly peidiwch oedi**
**Ffoniwch Meinir i sicrhau lle i'ch plentyn**
**(029) 20344638**

Rydym hefyd yn chwilio am famau sy'n awyddus i weithio'n rhan amser neu'n llawn amser.

**Cysylltwch â Wendy am fwy o fanylion.**
**(029) 20212910**

**www.s4c.co.uk**




Bywyd ar ôl Gareth.
Beth sy'n wynebu'r genod rŵan?

**AMDANI**

**9.00PM**
**NOS SUL**

**YN CYCHWYN MEDI 16**
**TRANSL888/889**

Ailddarllediad bob nos Fawrth
gydag is-deitlau Saesneg ar y sgrîn

**CYFRES NEWYDD** **S4C**